

Ffeithlen Gaffael

Tendro fel Consortiwm



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Abertawe'n croesawu cynigion oddi wrth sefydliadau a hoffai gydweithio ar ffurf **consortium**. Grwpiau o sefydliadau sy'n dod at ei gilydd ar gyfer prosiect penodol neu at ddiben penodol yw consortia, a gallant fod naill ai'n bartneriaethau cyfreithiol, fel y disgrifir o fewn [Deddf Partneriaethau 1890](#), neu'n gysylltiadau anffurfiol neu rydd, er enghraifft sefydliadau sy'n cydweithio dan gefnogaeth Memorandwm o Ddealltwriaeth.

2. Pam sefydlu Consortium?

Mae nifer o resymau dilys dros pam y gallai sefydliadau benderfynu creu consortium er mwyn cyflwyno cynnig ar y cyd am gontract cyngor. Weithiau, mae cwmpas cyfle i ennill contract mor amrywiol y gall cyflenwr unigol ei chael hi'n anodd cynnig yr holl wasanaethau angenrheidiol trwy weithio fel unigolyn. Gall rhesymau eraill dros sefydlu consortium gynnwys y canlynol:

- Nid yw'r sefydliadau unigol yn ddigon mawr i gyflawni gofynion y contract.
- Nid oes gan y sefydliadau unigol ddigon o brofiad blaenorol neu'r gofynion gallu technegol eraill i fodloni'r gofynion lleiaf a nodir yn y dogfennau caffael.
- Nid oes gan y sefydliadau unigol yr holl gyfarpar, offer neu adnoddau technegol eraill sy'n ofynnol i gyflawni'r contract.
- Nid oes gan y sefydliadau unigol yr holl sgiliau neu'r arbenigedd i gyflawni'r contract.
- Fel arall, gall fod sefydliad arall ag arbenigedd penodol mewn un maes a fyddai'n ategu'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig.

3. Beth yw ystyr cynigion consortium?

Defnyddir y termau '*cynigion consortium*' a '*chynnig ar y cyd*' trwy'r ffeithlen hon i gyfeirio at sefyllfa lle mae **dau** barti neu fwy'n dewis cyflwyno cynnig ar y cyd mewn cystadleuaeth gaffael.

Gall consortium gynnwys dwy fenter fach a chanolig neu fwy, neu gall gynnwys, er enghraifft, un busnes mawr ac un fenter fach a chanolig neu fwy. Bydd cyfansoddiad y consortium bob tro'n dibynnu ar y gofyn, a darperir enghreifftiau ohonynt yn unig.

4. Oes unrhyw reolau ynghylch cynigion consortium?

Mae [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015](#) yn ymdrin yn benodol â grwpiau o weithredwyr economaidd (sefydliadau) sy'n cyflwyno cynigion. Mae Rheoliad 19 yn datgan yn benodol "*Gall grwpiau o weithredwyr economaidd, gan gynnwys cysylltiadau dros dro, gymryd rhan mewn prosesau caffael cyhoeddus ac ni ofynnir iddynt gan awdurdodau contractio i gael ffurf gyfreithiol benodol er mwyn cyflwyno tendr neu gais i gymryd rhan*".

Fodd bynnag, efallai y bydd angen consortium ar y cyngor i weithredu ar ffurf gyfreithiol benodol pan fydd yn ennill y contract, i'r fath raddau fod hyn yn angenrheidiol i berfformio gofynion y contract yn foddhaol.

Bydd y ffordd y mae eich sefydliad yn penderfynu strwythuro consortium yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor ffurfiol neu anffurfiol yr hoffech i'r trefniadau fod.

Mae'r ffeithlen hon yn drosolwg cyffredinol ac ni fwriedir iddo ddarparu cyngor i unrhyw sefydliad penodol na chymryd lle cyngor cyfreithiol. Dylech geisio cyngor cyfreithiol am unrhyw fater sy'n effeithio ar eich sefyllfa gyfreithiol.

Dylech geisio'ch cyngor cyfreithiol eich hun ar yr hyn sydd orau am eich amgylchiadau penodol. Mae enghreifftiau o ffyrdd ffurfiol o sefydlu consortiwm yn cynnwys y canlynol:

- i. Creu **partneriaethau cyfreithiol**. Sefydlir y rhain i gydymffurfio â gofynion Deddf Partneriaethau 1890 a gallant gymryd ffurf 'Partneriaeth Gyffredin', 'Partneriaeth Gyfyngedig' neu 'Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig' - LLP.
- ii. **Creu cwmni** y mae gan aelodau'r consortiwm ddiddordeb ynddo. Mae sefydlu partneriaeth gyfreithiol ffurfiol neu gwmni'n fater cymhleth a dylech geisio cyngor cyfreithiol os ydych yn bwriadu bod yn rhan o drefniant o'r fath.

Gellir sefydlu trefniadau llai ffurfiol, er enghraifft at ddiben penodol, h.y. cynnig ar gyfer contract neu berthynas tymor hwy lle mae aelodau'r consortiwm yn rhydd i fasnachu'n annibynnol ar y consortiwm. Yn y ddau achos, mae'n syniad synhwyrol i aelodau unigol y consortiwm gael cytundeb syml neu femorandwm o ddealltwriaeth sy'n esbonio sut bydd y berthynas yn gweithio, gan gynnwys taliadau a rhwymedigaethau, sut mae'r unigolyn yn elwa a beth yw cyfrifoldebau pob aelod a sut maent yn bwriadu i'w trefniadau fod yn gyfreithiol rwymol.

5. Oes gwahaniaeth rhwng consortia ac is-gontractio?

Grŵp o sefydliadau sy'n dewis cydweithio at ddiben penodol cyffredin yw consortiwm.

Mewn perthynas is-gontractio, gall sefydliad sy'n ennill contract gytuno â sefydliad arall iddynt wneud rhan o'r gwaith. Mewn perthynas o'r fath, caiff yr is-gontractwr ei 'benodi' a'i dalu am ei waith gan y prif gontractwr. Gan ddibynnu ar sut rydych yn sefydlu'ch consortiwm, gall rhai aelodau ymddwyn fel is-gontractwyr wrth gontractio gyda'r cyngor.

6. O ran contractio gydag Abertawe, beth yw'r rheolau?

Gall y cyngor gontractio gydag un endid cyfreithiol. Gallai hyn fod yn fasnachwr unigol, yn bartneriaeth gyfreithiol, yn gwmni cyfyngedig, etc.,

Os hoffech gyflwyno cynnig fel consortiwm, ond nid yw aelodau'ch consortiwm wedi sefydlu gyda'i gilydd fel partneriaeth neu gwmni fel y gallwch ddefnyddio hynny fel endid cyfreithiol sy'n ymgymryd â chontractau, byddwn yn disgwyl gweld un aelod o'r consortiwm yn chwarae rôl **arweinydd y consortiwm** wrth gyflwyno'r tendr. Fel rhan o'r broses gaffael, byddai angen i'r cyngor ddeall pwy yw aelodau'r consortiwm arfaethedig a pha ran o'r gwasanaeth a ddarperir gan bob aelod. Rhaid i ymatebion alluogi'r cyngor i asesu cynnig cyffredinol y consortiwm.

Os yw'ch cynnig yn llwyddiannus, byddwn yn ymrwmo i gontract gydag arweinydd y consortiwm i gyflwyno'r gwasanaeth. Byddwn hefyd yn talu arweinydd y consortiwm am ddarpariaeth y gwasanaeth, a dyna pam mae'n angenrheidiol i aelodau'r consortiwm gytuno ar sut y caiff pob aelod ei ad-dalu am y gwaith y mae wedi'i wneud.

7. Cynigion consortiwm a'r Holiadur Dewis

Fel rhan o'r broses gaffael, gofynnir i bob ymgeisydd gwblhau Holiadur Dewis. Gofynnir i ymgeiswyr ateb pob cwestiwn a ofynnir yn yr Holiadur Dewis a gofynnir iddynt gyflwyno'r wybodaeth a ofynnir yn yr Holiadur Dewis yn unig. Mae'r Holiadur Dewis yn gofyn i sefydliadau ddatgan eu statws eu hunain yn erbyn yr achosion gwahardd a'r cwestiynau dewis. Rhennir yr Holiadur Dewis yn dair rhan ar wahân:

- Rhan 1: Gwybodaeth am Gyflenwr Posib
- Rhan 2: Achosion Gwahardd
- Rhan 3: Cwestiynau Dewis

Fel rhan o'r broses gaffael, rhaid i bob sefydliad y dibynnir arno fel rhan o'r cynnig gwblhau Rhan 1 a 2 yr Holiadur Dewis i brofi nad yw'n rhan o achosion gwahardd gorfodol neu ddewisol y broses gaffael. Os bydd sefydliad yn dod o fewn un o'r categorïau hynny, gall y cynngor ofyn i benodi sefydliad arall yn ei le fel rhan o'r consortiwm.

Dylai arweinydd y consortiwm gwblhau pob cwestiwn yn Rhan 3 yr Holiadur Dewis ar ran aelodau'r consortiwm fel un ateb cyfunedig. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am bob aelod, is-gontractwr neu gyflenwr trydydd parti a fydd yn chwarae **rôl sylweddol** wrth gyflawni'r contract. Mae'r cynngor yn diffinio rôl sylweddol fel dibynnu ar neu gyfeirio at sefyllfa economaidd ac ariannol a/neu allu technegol neu broffesiynol aelod, is-gontractwr neu drydydd parti yn y consortiwm o fewn yr ymateb i dendro. Bydd angen i'r cynngor ddadansoddi'r wybodaeth sy'n hwyluso asesu sefydlogrwydd ariannol cyffredinol y consortiwm. Cydgasglu data ar berfformiad ariannol sydd fwyaf priodol pan fydd aelodau consortiwm yn cydweithio i gynyddu capasiti ar y cyd. Os yw consortiwm yn bodoli i gyflawni elfennau gwahanol ar gontract ac mae rhai o'r rheini'n fwy hanfodol i'r cyflawniad cyffredinol nag eraill, bydd angen dadansoddiad o sefydlogrwydd ariannol ar wahân.

8. Gwybodaeth Ychwanegol

Mae cymorth a chefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â sefydlu consortiwm i gyflwyno cynnig am gontract cyhoeddus ar gael yn:

- **Canolfan Cydweithredol Cymru**
cymru.coop/get-our-help/
0300 111 5050
- **Busnes Cymru**
businesswales.gov.wales/cy
03000 603 000
- Lluniwyd arweiniad cynnig ar y cyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo cyflenwyr ac mae ar gael yn y ddolen isod:
<https://gweddiill.gov.wales/topics/improvingservices/bettervfm/publications/jointbiddin g/?lang=en>.